# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 3 Gorffennaf 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

# 149(v4)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Nodi 70 Mlynedd ers Sefydlu'r GIG

(45 munud)

## 4 Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol: Cyfeiriad y Goruchaf Lys: Bil Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad Cyfreithiol) (Yr Alban)

(45 munud)

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol: Anabledd Dysgu, Y Rhaglen Gwella Bywydau

(45 munud)

**Dogfen Ategol**

Anabledd Dysgu Rhaglen Gwella Bywydau

## 6 Dadl: Brexit a'r Diwydiant Pysgota

(60 munud)

**NDM6755** – Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adroddiad Canolfan Poilisi Cyhoeddus Cymru o'r enw 'Implications of Brexit for Fishing opportunities in Wales'.

2. Yn cydnabod yr heriau sylweddol ac unigryw sydd ynghlwm wrth Brexit o safbwynt diwydiant pysgota ac amgylchedd morol Cymru.

3. Yn cefnogi'r themâu allweddol canlynol a bennwyd gan yr is-grŵp moroedd ac arfordiroedd:

a) cynllunio i wneud y defnydd gorau o'n moroedd;

b) sicrhau stiwardiaeth effeithiol o'n hamgylchedd morol a'n hadnoddau naturiol;

c) parhau i fod yn bartneriaid cyfrifol wrth reoli moroedd a physgodfeydd y DU;

d) sicrhau bargen fwy teg ar gyfer y diwydiant pysgota; a

e) bod yn annibynnol.

4. Yn ailddatgan ei gefnogaeth dros fynediad llawn a dirwystr i farchnad sengl yr UE, gan gynnwys ar gyfer bwyd a physgodfeydd.

Implications of Brexit for Fishing Opportunities in Wales *(Saesneg yn unig)*

Cafodd Themâu Strategol Allweddol yr Is-grŵp Bord Gron Moroedd ac Arfordiroedd eu hanfon mewn e-bost at yr Aelodau ar 26 Mehefin 2018.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Caroline Jones (South Wales West)

Ym mhwynt 2, dileu 'yr heriau' a rhoi 'y cyfleoedd' yn ei le.

**Gwelliant 2** – Paul Davies (Preseli Pembrokeshire)

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu bwriad Llywodraeth y DU i geisio'r mynediad mwyaf posibl i'r farchnad sengl drwy gytundeb masnach rydd cynhwysfawr.

*[Os derbynnir gwelliant 2, caiff gwelliant 3 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 3** – Caroline Jones (South Wales West)

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth y DU i weithredu parth economaidd unigryw o 200 milltir i roi mynediad unigryw i bysgotwyr y DU i foroedd o fewn 200 milltir o arfordir y DU.

**Gwelliant 4** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod angen sicrhau llais cryf ar gyfer Cymru yn nhrafodaethau masnach yn sgil Brexit.

**Gwelliant 5** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pwysigrwydd pysgota i fywoliaeth gynaliadwy cymunedau arfordirol Cymru.

**Gwelliant 6** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i neilltuo mwy o adnoddau ar gyfer pysgodfeydd a’r amgylchedd morol.

## 7 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 4 Gorffennaf 2018